



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS  
DDYDD MAWRTH, 22 MEDI 2020 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd  
Y Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E. A. Aldworth, C. Cuss, W. David, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, M.P. James, B. Miles, Mrs G.D. Oliver, J. Roberts a J. Simmonds.

Y Cynghorydd R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), R. Tranter (Pennaeth y Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Monitro), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), J. Lougher (Rheolwr Datblygu Chwaraeon a Hamdden), M. Jacques (Swyddog Craffu) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mrs P.J. Ireland (NEU) a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaeth Eglwys Unionged Rwsiaidd Caerdydd dros Addysg).

I. Elliott (Pennaeth Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod).  
A. Tucknutt (Pennaeth Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon).

### 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau a Swyddogion presennol a newydd i'r cyfarfod a chyflwynodd yr Aelod Cabinet newydd dros Addysg a Chyflawniad, y Cynghorydd R. Whiting i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu Addysg.

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr P.J. Bevan ac A. Collis.

### 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

#### **4. COFNODION – 24 CHWEFROR 2020**

CYTUNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 24 Chwefror 2020 (cofnodion rhifau 1-11) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIR AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

#### **6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU AR ADDYSG**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a amlinellodd Flaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y rhaglen waith a gwneud unrhyw ddiwygiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a holwyd a ddylid ychwanegu'r adroddiadau a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer Cyfarfodydd Craffu yn gynharach yn y flwyddyn nas cynhaliwyd oherwydd y pandemig COVID-19 at y Flaenraglen Waith ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymwyd y gellid dosbarthu rhai adroddiadau sydd wedi'u hysgrifennu i'r Aelodau drwy eitemau gwybodaeth ac os codwyd unrhyw bryderon bryd hynny gellid eu cynnwys ar agenda'r dyfodol i'w hystyried. Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â'r Swyddog Craffu yn dilyn y cyfarfod i awgrymu pa adroddiadau y dylid eu blaenoriaethu a'u dosbarthu.

Ar ôl ystyried a thrafod, cytunodd yr Aelodau'n unfrydol, yn amodol ar y canlynol, i gyhoeddi'r Flaenraglen Waith sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad ar wefan y Cyngor:

CYTUNWYD y dylid symud y Pwyllgor Craffu Addysg a drefnwyd ar gyfer 3 Tachwedd 2020 i ddydd Iau 26 Tachwedd 2020. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â chanlyniad Cam 1 Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Ymgynghoriad mewn perthynas ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, wrth i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 26 Hydref 2020.

#### **7. ADRODDIADAU CABINET**

Nid oedd yr un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda wedi'u galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

#### **ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

#### **8. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS AG YSGOL A CHANOLFAN ADNODDAU CAE'R DRINDOD AC YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON**

Pwrpas yr adroddiad oedd ymgynghori'n swyddogol a chael sylwadau Aelodau ynghylch cynigion Cam 1 Band B ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Nodwyd bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y ddau gynnig wedi dechrau ar 14 Medi

2020 ac y bydd yn dod i ben ar 26 Hydref 2020. Cyflwynwyd y ddau gynllun ar wahân i'r Pwyllgor Craffu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn brif raglen strategol hirdymor o fuddsoddiad cyfalaf. Mae'n cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru. Amlinellwyd nodau allweddol rhaglen fuddsoddi Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Lleihau nifer yr ysgolion mewn cyflwr gwael;
- Sicrhau bod gan y Cyngor ysgolion o'r maint cywir ac yn y lleoliad cywir, gan ddarparu digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.

Amlinellwyd y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon gan Swyddog. Y cynnig yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd yw adleoli'r ysgol i ysgol darpariaeth cyfrwng Cymraeg bwrpasol newydd a fyddai'n cynnwys cyfleuster cynradd gyda gofal plant, canolfan adnoddau arbennig, meithrinfa a darpariaeth i rai o dan 3 oed. Cynigir lleoli'r ysgol ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn er mwyn gallu cyflwyno'r cwricwlwm yn gynhwysol mewn amgylchedd ysgogol ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bydd y cyfleuster newydd yn cefnogi defnydd y gymuned ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Amlinellodd y Swyddog y rhesymeg dros y cynnig ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, gan gynnwys cyflwr yr ysgol bresennol, y galw a ragwelir, yr effaith ar ysgolion eraill, arolygiad Estyn, dalgylch a gwireddu gofynion amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili. Mae manylion llawn ar gael yn y Dogfennau Ymgynghori a gynhyrchwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ac sydd ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled ar gais.

Amlinellwyd y cynnig mewn perthynas ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod gan Swyddog. Y cynnig yw ehangu'r ysgol bresennol drwy godi estyniad newydd a lle chwarae awyr agored i ddarparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer y galw cynyddol am leoedd, ardaloedd myrraeth arbenigol a mannau chwarae awyr agored. Bydd y cyfleuster hefyd yn darparu adnoddau ychwanegol fydd ar gael i'r gymuned eu defnyddio. Mae sylwadau'r plant yn yr ysgol wedi'u cynnwys yn y cynnig.

Amlinellodd y Swyddog y rhesymeg dros y cynnig ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod. Yr ysgol yw'r unig ysgol yn y Fwrdeistref sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed sydd ag ystod eang o anghenion a gofynion addysgol arbennig. Bydd y cyfleuster newydd yn cynnwys mannau hyblyg gyda nodweddion unigryw ac arloesol i helpu disgyblion i wella eu sgiliau i gynorthwyo'r Awdurdod ymhellach i fodloni gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae manylion llawn ar gael yn y Dogfennau Ymgynghori a gynhyrchwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ac sydd ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled ar gais.

Fel rhan o ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru ac Adran 42/44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, eglurwyd bod yn rhaid cyhoeddi cynigion pan fydd y Cyngor yn gwneud 'newid sy'n cael ei reoleiddio' i ysgol a gynhelir neu ysgol Arbennig yn y drefn honno. Rhaid ymgynghori ag Aelodau a Rhanddeiliaid ehangach fel y nodir ac a amlinellir yn y Cod. Ceisir barn disgyblion drwy gefnogaeth yr ysgol fel grŵp ymgynghorai allweddol a chaiff eu sylwadau eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. Unwaith y daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 26 Hydref 2020, bydd adroddiad ymgynghori ar gyfer pob cynnig, sy'n crynhoi barn ymgynghoreion, yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Craffu cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried. Yna, bydd y Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen, cyhoeddir Hysbysiadau Statudol unigol gan ddarparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Nodwyd mai'r broses ymgynghori bresennol oedd rhoi barn ar y cynigion, nid ydynt yn wrthwynebiadau ar hyn o bryd. Dywedwyd wrth yr

Aelodau fod Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael cyfle i wneud hynny. I'w ystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig a'u hanfon at y Cyngor o fewn y cyfnod rhybudd. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru ymatebion ffurfiol.

Croesawodd yr Aelodau Ms A. Tucknutt (Pennaeth Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon) a Mr I. Elliott (Pennaeth Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod) i'r cyfarfod. Rhoddodd y ddau ohonynt amlinelliad byr o'r cynigion mewn perthynas â'u Hysgolion a'r effaith gadarnhaol y byddai hyn yn ei chael ar les disgyblion. Tynnodd y ddau Bennaeth sylw at arolygiad rhagorol Estyn yr oedd y ddwy ysgol wedi'i dderbyn ar draws pob un o'r 5 maes arolygu a sut mae'r disgyblion wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion. Cadarnhaodd Mr I. Elliott hefyd sut yr oedd yr 80 lle ychwanegol wedi'u nodi. Gwylodd y Pwyllgor fideo Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon a gynhyrchwyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Oherwydd problemau technegol, nid oedd modd dangos fideo Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod a chytunwyd y byddai'n cael ei ddosbarthu i bob aelod ar ôl y cyfarfod. Roedd y fideos yn dangos staff a disgyblion brwdfrydig yn cyflwyno eu hysgolion ac yn tynnu sylw at y manteision y gallai cynigion Cam 1 Band B eu cynnig, yn ogystal â datganiadau gan bartneriaid allweddol a fyddai hefyd yn elwa o'r cynigion.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a'r broses ymgynghori a holwyd a oedd y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y cynlluniau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer darpariaeth ysgolion yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, p'un ai a oedd y broses ymgynghori wedi'i haddasu o ran ymgysylltu'n llawn â'r holl randdeiliaid, o ystyried y cyfyngiadau presennol. Holodd Aelod arall pam na ellid cynnal o leiaf 1 neu 2 gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r gymuned ac Aelodau wardiau lleol i roi cyfle i ymgysylltu lle gall pobl ofyn cwestiynau yn hytrach na'u rhoi yn ysgrifenedig. Eglurodd y Swyddog nad oes unrhyw gynlluniau i newid dyluniad yr adeiladau a nodir yn y cynigion o ganlyniad i COVID-19. Mewn perthynas â'r broses ymgynghori, roedd Swyddogion wedi bwriadu dechrau'r broses ymgynghori ym mis Mai 2020 felly bu oedi gyda'r broses hon. Er bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, llywodraethwyr, aelodau o staff a'r gymuned wedi'u hystyried, nid yw'n ofynnol ymgynghori fel hyn yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yng ngoleuni canllawiau COVID-19 a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol, cynhaliwyd ymgynghoriad drwy broses ysgrifenedig. Yn ogystal â hyn, yr wythnos hon trefnodd Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif sesiwn 'Holi ac Ateb' i'r holl randdeiliaid ei defnyddio a bydd yr holl gwestiynau ac atebion yn cael eu cyhoeddi ar Wefan Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r holl randdeiliaid eisoes wedi'u cyfeirio at y wefan hon er mwyn gweld yr holl wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Cadarnhawyd hefyd y gellir cael gafael ar gopiâu o'r ddogfen ymgynghori yn Gymraeg a Saesneg ar-lein a bod copïau caled ar gael ar gais.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sefyllfa darpariaeth loeren gyda dosbarthiadau mewn ysgolion prif ffrwd ac ai'r bwriad yn yr hirdymor oedd dod â nhw'n ôl i Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ar ôl i'r estyniad arfaethedig gael ei godi. Cadarnhaodd y Pennaeth fod Caerffili mewn sefyllfa unigryw gan fod yr ysgol arbennig ar un pen i'r sbectrwm a'r ystafell ddosbarth lloeren yn yr ysgol brif ffrwd yn y pen arall. Mae rhieni'n hoffi'r opsiwn hwn ac mae hefyd yn cynyddu'r capasiti o fewn yr ysgol. Ni fyddent yn cael eu dod yn ôl i Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ei hun gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn anafanteisiol i'r disgyblion. Nodir y manylion llawn yn y ddogfen Ymgynghori.

Mynegodd aelod gefnogaeth i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ond cododd bryderon hefyd ynghylch rhai o'r trefniadau a gynigiwyd ar gyfer Clwb Rygbi Penallta mewn perthynas ag ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod a ph'un ai a ymgynghorwyd yn anffurfiol â Chlwb Rygbi Penallta cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. Holodd yr aelod hefyd a oedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar ffurf copi caled gan nad oedd gan bawb fynediad i'r fersiynau ar-lein. Cynigiodd yr Aelod y gellid gwella cae arall ar safle'r Clwb Rygbi (a ddefnyddir ar hyn o bryd fel cae ymarfer) a'i godi i safon y gynghrair ac y byddai angen darn bach o dir gan Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod i wneud hyn. Eglurodd swyddogion fod trafodaethau wedi dechrau gyda'r Clwb Rygbi ym mis Tachwedd

2019, eu bod wedi cyfarfod eto ym mis Mawrth 2020 ac yna ym mis Gorffennaf 2020 pan ddarparwyd copi o'r achos busnes yn nodi cefndir y prosiect. Mae negeseuon e-bost hefyd wedi'u cyfnewid a deialog barhaus gyda diweddariadau yn ystod y broses. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r tîm cyntaf yn chwarae yn y Ganolfan Ragoriaeth. Edrychodd swyddogion ar ddimensiynau'r llain ymarfer, a adwaenir yn lleol fel Trinity 2 a'r problemau llifogydd gyda'r llain isel. Gofynnwyd am gyngor ynghylch adeiladu'r llain, ond ni fyddai hyn yn cael caniatâd cynllunio. Cynnig y Cyngor felly yw gwella cae Sue Noakes a'i godi i safon tîm gyntaf sydd o fewn pellter cerdded i'r Clwb Rygbi. Mae'r tîm ieuencid ym Mhenallta eisoes yn defnyddio'r cae hwn. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd am lifogydd, tynnodd yr Aelod ei argymhelliad ychwanegol arfaethedig yn ôl. Cadarnhaodd swyddogion hefyd fod gwybodaeth yr Ymgynghoriad wedi cael cyhoeddusrwydd eang a'i bod, ar flaen y ddogfen, yn nodi y gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg, Saesneg, ieithoedd eraill a bod copi caled ar gael ar gais.

Cododd Aelod nifer o bryderon, er ei fod yn gefnogol i'r cynnig i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, mewn perthynas â'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gymuned. Holodd pam nad oedd safleoedd eraill wedi cael eu hystyried pan fydd niferoedd yr ysgolion yn cynyddu ac awgrymodd y dylid adeiladu ysgol fwy ar safle arall i ddiogelu'r ysgol yn y dyfodol. Tynnodd yr aelod sylw hefyd at bryderon ynghylch adeiladu yn yr ardal yn y gorffennol a dywedodd fod dros 1000 o wrthwynebiadau wedi'u cyflwyno yn erbyn y cynnig hwn ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd Mr I Elliott sut y cyfrifwyd niferoedd y disgyblion, gan edrych ar dueddiadau ledled Cymru. Eglurwyd bod Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod nid yn unig yn ddarpariaeth addysg ond yn cysylltu'n agos iawn ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Esboniodd y Pennaeth sut y bydd niferoedd yn cael eu rhagweld yn y dyfodol a pham mai ehangu'r ysgol bresennol oedd yr opsiwn a ffefir. Pwysleisiodd fod Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod yn unigryw i Gaerffili a'r gymuned yw'r fwrdeistref gyfan.

Rhoddodd swyddogion eglurhad ynglŷn â'r datganiad ynghylch y gwrthwynebiadau. Ni chafodd ffynhonnell y wybodaeth ei hegluro. Roedd yn dal yn ddyddiau cynnar o ran Ymgynghori, dywedodd y Swyddog fod safbwyntiau wedi'u cyflwyno o blaid ac yn erbyn y cynnig, ond nid oedd y nifer a ddyfynnwyd gan yr aelod wedi'u hadlewyrchu yn yr hyn a dderbyniwyd hyd yma.

Mynegwyd pryder pellach hefyd ynglŷn â defnyddio a dyrannu defnydd yn y Ganolfan Ragoriaeth a bod cae Sue Noakes o leiaf 20 i 25 munud ar droed o Benallta. Cadarnhaodd swyddogion fod gan y Ganolfan Ragoriaeth system archebu restredig, y cytunwyd arni gan y Cabinet mewn ymgynghoriad ag Undeb Rygbi Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Mae meini prawf ar gyfer y dyraniad ac mae gan Glwb Rygbi Penallta archebion wythnosol ers i'r ganolfan agor. Er efallai nad lleoliad Sue Noakes yw'r lleoliad a ffefir gan y clybiau ar hyn o bryd, mae'r tîm ieuencid yn defnyddio'r safle ar hyn o bryd.

Gofynnodd aelod a fyddai'r asesiad risg a gynhaliwyd fel rhan o'r cynnig yn sicrhau y byddai datrysiad draenio cynaliadwy yn cael ei ddatblygu i atal llifogydd lleol. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r broses gynllunio yn cynnwys ateb cynaliadwy wedi'i gynllunio i safonau presennol y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) ac yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru fel y gwneir gydag unrhyw ddatblygiad yn y Fwrdeistref ar gyfer unrhyw beth dros 100 metr sgwâr.

Wrth gloi, cyfeiriodd nifer o Aelodau at amgylchiadau unigol pan oeddent wedi mynychu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod a pha mor sylfaenol ac arbennig yw'r cyfleuster hwn yn y Fwrdeistref Sirol. Wrth bwysu a mesur, er y gallai clwb rygbi Penallta gael ei effeithio a bod angen trafodaethau pellach i ganfod ffordd ymlaen, nodwyd bod y cynnig i ehangu'r ysgol fel yr amlinellir yn gyfle i weithio mewn partneriaeth ac i gefnogi'r plant mwyaf agored i niwed.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau yn adroddiad y Swyddog ac a drafodwyd yn y cyfarfod. Cafodd ei gynnig a'i eilio, a chytunwyd yn unfrydol y byddai'r bleidlais mewn perthynas â phob ysgol yn cael ei chymryd ar wahân:

- i. cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion mewn perthynas ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod yn cael eu cymeradwyo ac wrth nodi bod 12 o blaid ac 1 yn erbyn, cytunodd y mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn;
- ii. cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion mewn perthynas ag Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn cael eu cymeradwyo a chytunwyd yn unfrydol ar hyn.

## 8. DYCHWELYD I'R YSGOL YN LLAWN MEDI 2020

Cyflwynodd y Prif Swyddog Addysg gyflwyniad a oedd yn rhoi manylion ynghylch sut mae'r Adran Addysg ac ysgolion wedi ymateb ac addasu yn ystod y pandemig COVID-19.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyhoeddiad i gau'r ysgolion wedi'i wneud ddydd Mercher, 18 Mawrth, 2020 ar gyfer dydd Gwener, 20 Mawrth. O fewn dyddiau cytunwyd ar y strategaeth prydau ysgol am ddim a'i gweithredu, a phroseswyd tua 1,000 o geisiadau am ofal plant i weithwyr allweddol. Sefydlwyd 6 hyb prif ffrwd ac 1 ganolfan ADY gyda 4 canolfan ychwanegol prif ffrwd arall a 2 ganolfan disgyblion agored i niwed a chyfrannodd dros 1,700 o staff at y broses hon.

Ail-agorodd ysgolion ddydd Llun, 29 Mehefin, 2020, er mwyn gwirio, dal i fyny a pharatoi - gydag uchafswm o 1/3 o gapasiti disgyblion. Cwblhawyd Asesiadau Risg ar gyfer holl safleoedd ysgolion a staff a disgyblion agored i niwed. Cyhoeddodd yr Awdurdod Lleol ganllawiau a pharhaodd cyfarfodydd wythnosol gyda phenaethiaid.

Rhwng mis Mehefin a mis Medi, cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gyda swyddogion mewnol i adolygu'r canllawiau a chynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol hefyd gydag Undebau Llafur i ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r canllawiau. Parhaodd cyfarfodydd gyda phenaethiaid drwy'r haf tan yr hydref gan ddrafftio canllawiau newydd yr Awdurdod Lleol a darparu cyngor a chymorth ar gyfer adolygu Asesiadau Risg ar gyfer safleoedd a staff. Roedd trefniadau arlwygo a glanhau yn parhau i gael eu hadolygu ond byddai pob disgybl yn dod â phecyn cinio tan 1.10.2020.

Y disgwyliadau ar gyfer Medi 2020 oedd parhau i gyflwyno prydau ysgol am ddim tan 30 Medi 2020 ac y dylid dynodi dydd Mawrth 1 a dydd Mercher 2 Medi 2020 yn ddiwrnodau cynllunio dynodedig i allu diweddarau Asesiadau Risg. Byddai disgyblion yn dechrau dychwelyd mewn grwpiau o 3 Medi fel bod pob disgybl yn dychwelyd o ddydd Llun 14 Medi a byddai Ysgolion yn sefydlu cynlluniau parhad busnes.

Crynhodd y Swyddog y cymorth a gynigiwyd i ysgolion a oedd yn cynnwys:

- Cyngor a chymorth ar gyfer Asesiadau Risg safle ac unigol.
- Canllawiau ALI yn cael eu diweddarau'n rheolaidd i gynnwys prosesau, e.e. profi, olrhain a diogelu.
- Cyfathrebu cyson a mynediad at gyngor a chymorth.
- Wi-fi i ymwelwyr ym mhob ysgol.
- Rhaglen Technoleg Addysg.
- Cyllid ar gyfer gwर्सlyfrau i bob disgybl ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.
- Polisi a dosbarthu gorchuddion wyneb.
- Cyllid Dysgu Carlam.

Wrth gloi, nododd y Swyddog yr agweddau mwyaf heriol ar gyfer ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol a lleihau'r cyswllt rhwng grwpiau, y broses Profi, Olrhain a

Diogelu a rheoli gorbryder. Hefyd, atebion arlwyo, gan gynnwys clybiau brecwast o 1 Hydref 2020.

Mynegodd y Cadeirydd ei hedmygedd enfawr i holl staff yr Awdurdod Lleol, y Prifathrawon a staff yr ysgol am eu gwaith caled wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer yr holl waith a wnaed, gan gynnwys hwyluso hybiau'r ysgol a phrydau ysgol am ddim. Canmolodd Aelodau'r Pwyllgor y Prif Swyddog Addysg a'i Thîm am y canllawiau clir a roddwyd i ysgolion ledled y sir ac i bob Pennaeth sydd hefyd wedi gweithio'n eithriadol o galed. Gofynnodd Aelod sut yr oedd diogelu wedi'i fonitro yn ystod y cyfnod hwn. Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Mr I. Elliott i nodi disgyblion sy'n agored i niwed a blaenoriaethu anghenion y disgyblion hynny a threfnu lleoliadau yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod lle bo angen. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag ysgolion i fonitro pob plentyn sy'n agored i niwed. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Addysg hefyd wedi cadw mewn cysylltiad â'u grwpiau drwy'r cyfnod a chadarnhaodd y Swyddog y bu ymdrech tîm eithriadol yn gyffredinol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am gyflwyno'r cyflwyniad ac ymateb i ymholiadau a godwyd a nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys y cyflwyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20pm.

Fe'i cymeradwywyd fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

---

CADEIRYDD